**Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd am 7:00 y.h. Nos Fawrth, 21 Medi 2021 drwy Zoom.**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Hefin Jones (Cadeirydd), Berwyn Parry Jones, Alan Pritchard, Goronwy Hughes, Haf Williams, Meirwen Lloyd, Cemlyn Jones, Beca Brown, Martin Jones

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Avril Jones, Philip Roberts, Richard Robinson

**Clerc:** Meirion Jones

**Aelodau o'r cyhoedd**: Michael Lynes

**873. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod

**874. Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**875. Datgan buddiant personol.**

Eitem 886 (b)

Y Cynghorydd Hefin Jones

**876. Cadarnhau cofnodion cyfarfod 17 Awst 2021**

Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**877. I dderbyn unrhyw sylwadau yn codi o'r cofnodion.**

Nifer o eitemau ar agenda cyfarfod heno

**878. Cadarnhau cofnodion cyfarfod arbennig a gynhaliwyd 16 Medi 2021**

Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**879. I dderbyn adroddiad gan bwyllgor y fynwent**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Hefin Jones yn absenoldeb Cadeirydd Pwyllgor y Fynwent y canlynol:-

Materion i'w nodi ers cyfarfod llawn ddiwethaf y Cyngor Cymuned (mae'r is-bwyllgor wedi cyfarfod yn ffurfiol yn y cyfnod, sef Awst 26, Medi 16).

1. Cyhoeddwyd yn swyddogol bod y Cyngor Cymuned wedi ennill gwobr Arian cystadleuaeth Mynwent y Flwyddyn (2021) i Gynghorau Cymuned neu Blwyf yn Lloegr a Chymru.

2. Newidwyr rheolau’r fynwent i gydnabod y sefyllfa ynglŷn ag aelodaeth o gyrff proffesiynol ymysg y rhai sydd yn trwsio cerrig beddi.

3. Atebion ffurfiol ysgrifenedig wedi ei danfon at ddau aelod o'r cyhoedd oedd yn mynegi pryderon ynglŷn ag agweddau o waith yn y fynwent.

4.Cyfarfod yn y fynwent gydag aelod o'r cyhoedd oedd yn holi am waith yn ddiweddar yn y fynwent (ac wedi codi cwestiwn am ddiffyg wal ar ran o ymyl y fynwent).

5. Y Clerc wedi ymateb i gais RG/FoI ynglŷn â gwaith yn y fynwent.

6. Aros i fedru lansio'r sustem ddigidol cerrig beddi.

7.Angen dialog ymhellach gyda'r Eglwys yn Nghymru am ei fynwent.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**880. I dderbyn adroddiad gan y Pwyllgor Cyllid**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Goronwy Hughes yn absenoldeb Cadeirydd Pwyllgor Cyllid y canlynol

1. Cadarnhau cofnodion or bwyllgor a gynhaliwyd 24 Mehefin 2021.

2. Adolygu y gyllideb parthed gwariant hyd yma a addasu y gyllideb fel yn briodol.

3. Ystyried swydd ddisgrifiad y clerc a swyddog ariannol cyfrifol. Fel ydach yn gweld mae yr uchod yn amgaeedig hefo y cofnodion heno, mae hyn wedi cael ei drafod yn fanwl gan yr is bwyllgor cyllid a hefyd yr oedd y clerc yn bresennol.

Fel y gwyddoch contract i glerc Cyngor Cymuned Llanrug ydi y ddogfen yma, ag wrth gwrs mae angen addasu ar gyfer y clerc presennol a hefyd penderfynu pwy sydd am gymryd drosodd pan fydd y clerc ar wyliau, salwch ayb.
Mae’r is bwyllgor yn rhoi y ddogfen ymlaen ir Cyngor llawn i fabwysiadu y contract heno.

4. Cafwyd trafodaeth manwl gan y pwyllgor ynglŷn a goleuadau Nadolig i'r pentref ac edrych yn fanwl ar y cyfrifon a hefyd ystyried y costau sydd o’m blaen hefo y fynwent mae yr is bwyllgor yn bryderus am contract o 5 mlynedd sydd £30,000 dros y cyfnod. Mae y clerc am gael pris i wneud y stryd fawr yn unig. Mae rhaid i'r pwyllgor llawn wneud penderfyniad sut mae symud ymlaen heno hefo hyn am fod yr amser yn brin. Y pris am wneud y stryd fawr ydi £1622.84 ddim yn cynnwys eu gosod.

5. Canran bach sydd wedi ymateb ynglŷn a'r cerrig beddi felly mi fydd rhaid ir cyngor feddwl am ffordd ymlaen i atgyweirio y cerrig eraill, nid oes digon o arian yn y gyllideb i wneud hyn o achos bod y gost n filoedd felly fydd angen meddwl am fenthyg yr arian a mynd i dendr yn y dyfodol.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**881. I dderbyn adroddiad gan y Pwyllgor Hamdden**

a) Adroddwyd gan y Cynghorydd Cemlyn Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Hamdden fod y trefniadau ar gyfer y goleuadau Nadolig wedi newid ac fod y pwyllgor bellach wedi ail ystyried eu penderfyniad gwreiddiol ac wedi penderfynu dim ond addurno ar hyd y ffordd fawr drwy Llanrug. Roedd hyn yn gostwng y gost yn sylweddol.

b) Nodwyd fod diwrnod casglu sbwriel yn cymryd lle yn Cwm y Glo ar 25 o Fedi a Llanrug ar 16 o Hydref.

c) Adroddwyd fod rhodd wedi dderbyn gan breswylydd yn Cwm y Glo ar gyfer prynu cennin pedr. Nodwyd byddai Menter Fachwen yn eu plannu.

d) Derbyniwyd cais am gennin pedr yn Bro Rhythallt.

e) Arwyddion dim ysmygu – angen rhain i fyny ar y caeau chwarae cgaph nawr

f) Oherwydd nad ydi'r cyngor yn rhoi coeden Nadolig yn y sgwâr y Nadolig hwn, anfon llythyr o ddiolch i'r busnes am eu parodrwydd i osod y goeden ers nifer o flynyddoedd bellach

g) Adroddwyd fod Cyngor Gwynedd angen cyfarfod parthed cynllun Ardal Ni 2035

**Penderfynwyd:**

a) Symud ymlaen a'r trefniadau newydd fel a argymhellir;
b) Parhau a'r trefniadau casglu sbwriel;
c) Prynu cennin pedr gyda'r arian a menter Fachwen i'w plannu;
d) Y Clerc y gysylltu ag Adra i geisio caniatâd;
e) Ystyried prynu rhain o ffynhonnell arall;
f) Y Clerc i anfon llythyr o ddiolch;
g) Trefnu cyfarfod ond ddim gyda aelodau Cyngor Gwynedd arno

**882. I dderbyn adroddiad gan y Pwyllgor Bwyd**

Adroddwyd fod y trefniadau yn gweithio yn dda ac fod y cynllun wedi sefydlu.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**883. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones aelod dros Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd.**

**Cyngor Gwynedd**

**Cynllun Datblygu Lleol**

Cyfarfod o'r Panel Polisi Cynllunio ar y Cyd hefo Ynys Môn, dydd gwener, lle fydd y Panel yn cael cyfle i holi ynglŷn â'r monitro o'r Cynllun Datblygu Lleol sydd yn digwydd yn flynyddol.. Fel y gwyddoch fydd y Cynllun yn mynd i gael adolygiad llawn eleni a fod hyn yn mynd i gymryd tair blynedd a hanner. Dal llawer o anniddigrwydd ymysg Cynghorwyr fod y broses yn cymryd mor hir, ond yn anffodus amserlen statudol yw.

**Newid Hinsawdd**

Mae Adroddiad o flaen y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar y camau mae Cyngor Gwynedd am gymryd i ymateb i'r heriau newid hinsawdd. Mae'n deg i ddweud fod dim llawer wedi digwydd dros yr 20 mis diwethaf yn sgil y pandemic, ond mae na ail afael yn y gwaith rŵan. Cabinet wedi ariannu swydd Rheolwr Rhaglen am 12 mis i ymgymryd a'r gwaith. Yn yr un modd penderfynwyd sefydlu Bwrdd Newid Hinsawdd i lywio'r gwaith. Mae'r Rheolwr Rhaglen wedi cychwyn ers mis Gorffennaf a gobeithir fydd cynllun drafft mewn lle yn y misoedd nesaf.

**Yn Lleol**

**Cylchfan Brynrefail**

Wedi gorffen o'r diwedd, i weld yn gweithio yn dda

**Cyflymder rhwng Cwm y Glo a Llanrug**

Erbyn hyn mae'r arwyddion a'r cyflymder o 40 mya wedi ei rhoi i fynny, Mae'r 40 yn mynd o garej Cwm at Llanrug. Dwi wedi derbyn sawl cwyn am y sefyllfa:-

1. Bod arwydd 30 mya i mewn i stâd Dolafon, dim angen yr arwydd yma oherwydd yn amlwg tydi ddim yn bosib cyrraedd y cyflymder yma ar y stâd.

2. Pam tydi yr 40 mya ddim yn cychwyn ger y gylchfan newydd. Mae hi'n anodd iawn croesi y ffordd ger y Fricsan am fod y traffic yn rhy gyflym.

Rwyf wedi adrodd ar y ddau gwyn, dwi wedi cael cydnabyddiaeth eu bod wedi ei derbyn, ond dal i ddisgwyl am ymateb

**Gor gyflymder Ffordd Ceunant Tanycoed.**
Wedi bod yn trafod hefo trigolion cais am speed bumps ar waelod allt Ceunant..

**Gor gyflymder ffordd Pontrug i Caeathro**
Wedi bod allan i weld y sefyllfa ac yn mynd i adrodd yn ôl i'r Cyngor

**Llifogydd yn gerddi Cwm y glo**

Wedi cael cyfarfod hefo swyddog y Cyngor a trigolion i geisio dallt sut mae'r llifogydd yn digwydd. Monitro ar y funud.

**884. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Beca Brown, aelod dros Llanrug ar Gyngor Gwynedd**

Cyngor

Mae Llanrug wedi ei adnabod fel un o'r ardaloedd fydd yn rhan o sgyrsiau ymgysylltu Ein Ardal Ni 2030, sef rhan o'r Fframwaith Adfywio. Y bwriad yw i gynnal deialog cyson gyda chymunedau er mwyn i'r gymuned ei hun arwain gyda chefnogaeth y cyngor, gan ddatblygu ffyrdd effeithiol o ganfod barn a dyheadau lleol.

Y cam cyntaf fydd sgyrsiau gydag aelodau etholedig a grwpiau lleol er mwyn ceisio adnabod y prif faterion yn lleol gan fynd ati wedyn i ddefnyddio dulliau ehangach i gynnwys mwy o bobol yn yr ymgysylltu.
Yn y pendraw y bwriad yw i baratoi cynlluniau lleol 'bespoke' fydd yn mapio adnoddau ac yn creu cynlluniau gweithredu.
Mae'n gyfle gwych i bobl Llanrug gael mynegi yr hyn yr hoffent weld yn newid neu yn cryfhau yn y pentref, gan nodi eu pryderon a'u gobeithion dros yr ardal.

Lleol

Y materion sydd yn codi'n lleol yw pryderon mawr am barcio peryglus mewn nifer o fannau ar hyd y pentref, ac am y problemau baw ci sydd yn dal yn boen mewn llawer man. Mae problemau sbwriel ailgylchu yn chwythu o focsys sydd heb gaead wedi dod i fy sylw hefyd yn ogystal a'r angen am waith trwsio'r ffordd mewn ambell fan a materion yn ymwneud a llwybrau.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**885. Llenwi sedd wag ar y cyngor**

Adroddwyd fod ddwy sedd wag bellach ar y cyngor oherwydd fod Iola Parry wedi ymddiswyddo yn ogystal. Gofynnir am ganiatâd i symud ymlaen i lenwi'r ddwy sedd.

**Penderfynwyd:** Y Clerc i wneud y trefniadau angenrheidiol er mwyn llenwi'r ddwy sedd

**886. Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'.**
**https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search**

**a)**
**Rhif y Cais:C21/0819/23/DT**
**Math o Gais:Cais Deiliaid Tŷ**
**Bwriad:Porth at flaen ty annedd**
**Ymgeisydd:Bethan Bee**
**Cyfeiriad:2, Bryn Gwyn, Ceunant, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4RH**
**Cyfeirnod Grid:253878.79, 362802.77**
**Ward:Cwm y Glo**

**Cymuned:Llanrug**

**Penderfynwyd:** Cefnogi'r cais

**b)**
**Rhif y Cais:C21/0793/23/DT**
**Math o Gais:Cais Deiliaid Tŷ**
**Bwriad:Adeiladu anecs unllawr**
**Ymgeisydd:Mr Michael Lynes**
**Cyfeiriad:Bungalow, Bryn Llan, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4PY**
**Cyfeirnod Grid:252959.8, 363221.23**
**Ward:Cwm y Glo**
**Cymuned:Llanrug**

**Penderfynwyd:** Cefnogi'r cais

**c)**
**Rhif y Cais:C21/0787/23/LL**
**Math o Gais:Cais Llawn**
**Bwriad:Defnyddio adeiladau allannol fel hundai o fewn maes carafanau presennol.**
**Asiant:Mr Gareth Rennie (Hafod Planning Consultants)**
**Ymgeisydd:Mr Anthony Vaughan Jones**
**Cyfeiriad:Maes Carafanau Twll Y Clawdd, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 2AZ**
**Cyfeirnod Grid:253102.49, 363543.92**
**Ward:Llanrug**
**Cymuned:Llanrug**

**Penderfynwyd:** Gwrthwynebu am resymau Cyngor Gwynedd

**d)**
**Rhif y Cais:C21/0759/23/LL**
**Math o Gais:Cais Llawn**
**Bwriad:Addasu modurdy yn anecs ynghyd a chodi estyniad.**
**Asiant:Mr Alan Owen (A.L.I Buiding Design)**
**Ymgeisydd:Mr and Mrs P Bedford**
**Cyfeiriad:Pant Afon Bach, Ceunant, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4RA**
**Cyfeirnod Grid:252423.26, 362203.04**
**Ward:Cwm y Glo**
**Cymuned:Llanrug**

**Penderfynwyd:** Cefnogi'r cais

**e)**

**Rhif y Cais:C21/0736/23/HY**
**Math o Gais:Caniatad Hysbyseb (HY)**
**Bwriad:Ail-leoli arwydd goleuedig**
**Asiant:Mr Gareth Rennie (Hafod Planning Consultants)**
**Ymgeisydd:Mr Anthony Vaughan Jones**

**Cyfeiriad:Maes Carafanau Twll Y Clawdd, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 2AZ**
**Cyfeirnod Grid:253138.2, 363472.34**
**Ward:Llanrug**
**Cymuned:Llanrug**

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad

Daeth y cyfarfod oi ben am 20:55

Arwyddwyd

Cadeirydd: Dyddiad: